**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

# Y CYNGOR

Dyddiad ac Amser

**1.30 y.h., DYDD IAU, 5ED RHAGFYR, 2024**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**https://gwynedd.public-i.tv/core/l/cy_GB/portal/home**

Lleoliad

**Hybrid - Siambr Dafydd Orwig, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon LL55 1SH / Rhithiol ar Zoom**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(DOSBARTHWYD Dydd Mercher, 27 Tachwedd 2024)

**Ian Jones**
**Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth**

www.gwynedd.llyw.cymru

**DYDD MERCHER, 27 TACHWEDD 2024**

Annwyl Gynghorydd,

**CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – DYDD IAU, 5 RHAGFYR 2024**

**FE’CH GWYSIR TRWY HYN** i gyfarfod aml-leoliad o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.30 y.h., DYDD IAU, 5ED RHAGFYR, 2024 YN SIAMBR DAFYDD ORWIG, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, CAERNARFON LL55 1SH**, i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Yr eiddoch yn gywir



Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth

Bydd yr ystafelloedd a ganlyn ar gael i’r grwpiau gwleidyddol yn ystod y bore:-

Plaid Cymru - Siambr Dafydd Orwig
Annibynnol – Siambr Hywel Dda
Grwp Llafur / Rhydfrydol – Ystafell Ogwen

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. COFNODION** 8 - 31

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfodydd o’r Cyngor a gynhaliwyd ar y dyddiadau a nodir isod fel rhai cywir:

3 Hydref, 2024
24 Hydref, 2024 (Cyfarfod Arbennig)

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

**5. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy’n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**6. CWESTIYNAU**

Ystyried unrhyw gwestiynau y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Adran 4.18 o’r Cyfansoddiad.

**7. ARWEINYDD Y CYNGOR**

Penodi Arweinydd y Cyngor.

**8. TRETH CYNGOR - HAWL DISGRESIWN I GANIATAU DISGOWNTIAU A / NEU GODI PREMIWM AR AIL-GARTREFI AC EIDDO GWAG HIR-DYMOR 2025-26** 32 - 214

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Cyllid.

**9. CYNLLUN GOSTYNGIADAU TRETH CYNGOR 2025-26** 215 - 220

Cyflwyno adroddiad y Aelod Cabinet Cyllid.

**10. ADOLYGIAD O'R CYFANSODDIAD** 221 - 226

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol.

**11. ADOLYGIAD O DDOSBARTHIADAU PLEIDLEISIO A MANNAU PLEIDLEISIO** 227 - 240

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol.

**12. CAIS I NEWID ENW CYMUNED LLANAELHAEARN** 241 - 244

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol.

**13. RHYBUDDION O GYNNIG**

**(A) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD DELYTH LLOYD GRIFFITHS**

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd yn unol ag Adran 4.19 y Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths yn cynnig fel a ganlyn:-

Mae tŷ wedi ei gyfnewid nifer o weithiau mewn un pentref bach mewn ward wledig yng Ngwynedd. Digwyddodd hyn yn ystod cyfnod pan fo 12 o bobl leol (unedau teulu) yn aros am dŷ cymdeithasol yn y pentref. Nid yw deiliaid y cartref yn dod o Gymru nac yn aros am fwy na 12 mis.

Mae polisi gosod Cyngor Gwynedd yn cael ei danseilio bob tro mae tŷ yn cael ei gyfnewid tra bod pobl leol yn parhau ar y rhestr aros am gyfnodau hir heb lwyddo i sicrhau cartref.

Cred y cyngor hwn y dylai arfer Llywodraeth Cymru o gyfnewid tai cymdeithasol ddod i ben ar unwaith, oni bai bod y tŷ yn cael ei gyfnewid o fewn yr awdurdod lleol. Erfyniaf heddiw am gefnogaeth Cyngor Gwynedd i bwyso ar Lywodraeth Cymru i newid y ddeddf er mwyn digoni'r angen am dai lleol.

**(B) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD HUW ROWLANDS**

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd yn unol ag Adran 4.19 y Cyfansoddiad, bydd y Huw Rowlands yn cynnig fel a ganlyn:-

1. Gofynna Cyngor Gwynedd i Lywodraeth y Deyrnas Unedig ddyrannu cyfran deg o'r gwariant ar reilffordd HS2 yn Lloegr i Gymru.
2. Gofynnir hefyd i Lywodraeth Cymru barhau i ddwyn pwysau ar Lywodraeth y Deyrnas unedig er mwyn sicrhau hyn.

**(C) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD JUNE JONES**

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd yn unol ag Adran 4.19 y Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd June Jones yn cynnig fel a ganlyn:-

Yn sgil y ddamwain erchyll fu ar lôn yr A4085 ger pentref Garreg, Llanfrothen mis Tachwedd 2023 lle bu i bedwar o hogiau ifanc golli eu bywydau, bod Cyngor Gwynedd yn gyrru at Adran Trafnidiaeth Llywodraeth San Steffan yn gofyn iddynt edrych ar diweddaru'r rheolau i gael trwydded graddedig (graduated driving license) lle na all gyrwyr ifanc gario eu cyfoedion ifanc eraill heb bod iddynt wedi cael chwe mis o brofiad gyrru ar ol pasio eu prawf.

## (D) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD JOHN PUGHE ROBERTS

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd yn unol ag Adran 4.19 y Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd John Pughe Roberts yn cynnig fel a ganlyn:-

Mae newidiadau gan Lywodraeth Llafur San Steffan ar dreth etifeddiaeth amaethyddol wedi gweddnewid Cymorth Eiddo Amaethyddol (APR) fel bod pob fferm sydd werth dros filiwn o bunnoedd bellach yn gorfod talu treth etifeddiaeth.

Gyda'r diwydiant dan bwysau difrifol a rheolwyr "hedge fund" yn chwilio am y "carbon trade off" drwy system o ail-wylltio a phlannu coed ac felly codi gwerth tir amaethyddol. Golyga hyn bod 100 acer o dir sydd yn cyrraedd y trothwy neu  ffermdy a bwthyn hunan ddarparu yn werth dros filiwn o bunnoedd.

Golygai hyn bydd rhan fwyaf o ffermydd Gwynedd a Chymru yn gorfod talu symiau anferthol o dreth gyda rhai yn mynd yn fethdalwyr neu orfod gwerthu tir a fyddai'n golygu bod y ffermydd yn anweithredol i barhau i amaethu.

Galwaf felly ar Gyngor Gwynedd i ofyn i Lywodraeth Cymru ail ystyried eu cefnogaeth i Blaid Lafur San Steffan a bod Llywodraeth Cymru yn galw ar Lywodraeth San Steffan i ail-sefydlu y Rhyddhad Eiddo Amaethyddol.

## (E) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD ELIN WALKER JONES

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd yn unol ag Adran 4.19 y Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Elin Walker Jones yn cynnig fel a ganlyn:-

Bod y Cyngor

1. Yn nodi:
- y prinder sylweddol o wasanaethau deintyddol y GIG yng Ngogledd Cymru, a bod achos cryf ar gyfer sefydlu Ysgol Ddeintyddol ym Mangor.

2. Yn credu:
- bod gwasanaethau deintyddol yng Ngogledd Cymru mewn sefyllfa o argyfwng. Mae prinder difrifol o ddeintyddion y GIG yng Ngwynedd yn gadael llawer o gleifion, gan gynnwys plant a phobl fregus, heb fynediad priodol at ofal deintyddol sylfaenol. Mae hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar ein hadrannau brys yn yr ysbytai lleol oherwydd diffyg mynediad at ddeintyddion, gan arwain at gostau ac amseroedd aros ychwanegol.

Mae angen am fwy o hyfforddiant deintyddol. Yn anffodus, mae nifer sylweddol o fyfyrwyr sy'n dymuno astudio deintyddiaeth yn gorfod gadael Cymru oherwydd diffyg capasiti mewn ysgolion deintyddol.

Gallai ysgol ddeintyddol newydd ym Mangor chwarae rôl allweddol wrth hyfforddi mwy o ddeintyddion yn lleol, gan gynnig gwell siawns o gadw'r gweithlu deintyddol yn y rhanbarth a darparu gwasanaethau hanfodol yn lleol. Byddai sefydlu ysgol ddeintyddol ym Mangor yn darparu swyddi newydd o safon a denu buddsoddiad i'r economi lleol, gan gefnogi Bangor fel canolfan ragoriaeth ym maes iechyd, ochr yn ochr â'r ysgol feddygol newydd. Yn ogystal, gallai'r ysgol ddeintyddol ychwanegu at y ddarpariaeth o wasanaethau deintyddol Cymraeg a dwyieithog, gan wella mynediad at ofal iechyd i gymunedau lleol sy'n siarad Cymraeg.

3. Yn galw:
Galwn ar y Cyngor i gefnogi'r ymgyrch i sefydlu Ysgol Ddeintyddol ym Mhrifysgol Bangor, i ysgrifennu at ein cynrychiolwyr etholedig yn y Senedd i lobio Llywodraeth Cymru i ystyried yr achos economaidd ac iechyd cyhoeddus dros sefydlu ysgol ddeintyddol ym Mangor yn seiliedig ar y canfyddiadau allweddol a gyflwynwyd yn yr adroddiad Llenwi'r Bwlch.

## (F) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD RHYS TUDUR

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd yn unol ag Adran 4.19 y Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Rhys Tudur yn cynnig fel a ganlyn:-

O ystyried

- Bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud ymgynghoriad ar amrywio Treth Trafodion Tir
- Y byddai amrywio'r dreth yn rhoi'r cyfle i'r Cyngor daclo'r gyfradd y prynir ail dai yn effeithiol
- Y byddai amrywio'r dreth yn agor y drws i'r Cyngor hwn bwyso ar y Llywodraeth i roi ei siâr theg o'r refeniw sy'n deillio o dreth

tir

Mae'r Cyngor hwn yn galw ar Lywodraeth Cymru i roi mwy o rôl i Wynedd fedru penderfynu ar amrywiaethau ar gyfer Treth Trafodion Tir.

**14. YMATEBION / DIWEDDARIADAU I RYBUDDION O GYNNIG BLAENOROL** 245 - 246

(1) Llythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Gwynfor Owen i Gyngor 9 Mai, 2024 ynglŷn ag amlder y trenau ar Reilffordd Arfordir y Cambrian.

(2) Llythyr oddi wrth Lywodraeth y DU mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Elwyn Edwards i Gyngor 3 Hydref, 2024 ynglŷn â dynodi Dydd Gŵyl Dewi yn wyliau cenedlaethol swyddogol yng Nghymru.